# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 04 Tachwedd 2003 i'w hateb ar 18 Tachwedd 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Leanne Wood (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw gynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion Wanless. (OAQ29623)

**2. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa fesurau y mae ei Lywodraeth yn eu cymryd i wella'r mynediad i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ29627)

**3. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Sut y mae gwaith rheoli llifogydd yn cael ei wella yng Nghymru. (OAQ29629)

**4. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglyn â lefelau anweithgarwch. (OAQ29619) **W**

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar drywydd y broses ddatganoli yng Nghymru. (OAQ29633)

**6. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar amseroedd ymateb ambiwlansau. (OAQ29626)

**7. Brian Gibbons (Aberafan);** A oes cynlluniau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu dull strategol o fanteisio i'r eithaf ar adnoddau dwr yng Nghymru. (OAQ29632)

**8. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y bwriad i gau ysgolion gwledig. (OAQ29630)

**9. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau a fu rhyngddo ag aelodau Comisiwn Richard ynghylch unrhyw gynigion y mae'r Comisiwn yn ystyried eu gwneud ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ29610) **TYNNWYD YN ÔL**

**10. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd yng Nghaerdydd. (OAQ29642)

**11. Mike German (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ffïoedd

ychwanegol ar gyfer myfyrwyr. (OAQ29608)

**12. Sandy Mewies (Delyn);** Pa ddatblygiadau sydd wedi bod yn y gwaith o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno brecwast am ddim i blant ysgol. (OAQ29625) **TYNNWYD YN ÔL**

**13. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. (OAQ29622)

**14. William Graham (Dwyrain De Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Prif Weinidog wedi'u derbyn gan Gareth Thomas, AS Gorllewin Clwyd, ynghylch ei honiad bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gosod "cywirdeb gwleidyddol" o flaen gofal cleifion yng Nghymru. (OAQ29637)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal ynghylch cymorth i fyfyrwyr Addysg Uwch ar ôl 2007. (OAQ29611)